

Dinas a Sir Abertawe

Gwasanaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd

Polisi Cam-drin yn y Cartref yr Adran Tai 2014

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn pennu'r polisi tai i bobl y mae angen gwasanaethau tai arnynt o ganlyniad i gam-drin yn y cartref neu fygythiad o gam-drin yn y cartref. Wrth ddatblygu'r polisi, ystyriwyd Cynllun Cyflawni ar gyfer Cam-drin yn y Cartref Abertawe 2014-2017 sy'n nodi y bydd y cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i helpu i leihau cam-drin, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, drwy roi amcanion trawsbynciol ar waith ac y bydd yr adran tai yn parhau i fod yn bartner effeithiol ac ymroddedig gan weithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion diogelwch cymunedol amlasiantaeth. Gellir gweld Cynllun Cyflawni ar gyfer Cam-drin yn y Cartref Abertawe 2014-2017 yn

<http://www.scvs.org.uk/Resources/SCVS/OTHER%20ORGANISATIONS%20-%20Documents/domestic-abuse-delivery-plan-2014-17.pdf>

2.0 Datganiad Polisi

2.1 Mae cam-drin yn y cartref yn gamdriniaeth o hawliau dynol, ac mewn rhai achosion lle mae enghreifftiau o gam-drin corfforol a rhywiol, gall fod yn drosedd hefyd. Bydd y cyngor yn blaenoriaethu pob achos o gam-drin yn y cartref a adroddir i ni a byddwn yn gweithio gyda dioddefwyr, yn parchu eu dymuniadau (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae materion diogelu) ac yn cymryd camau gweithredu pan fo'r pŵer gennym i wneud hynny.

2.2 Byddwn yn defnyddio ymagwedd anfeiriadol sy'n canolbwyntio ar y cleient wrth ymateb i adroddiadau o gam-drin yn y cartref a byddwn bob amser yn dechrau drwy dderbyn, fel cofnod cywir, yr hyn y mae'r person sy'n adrodd am y cam-drin yn ei ddweud wrthym.

3.0 Diffiniad o Gam-drin yn y Cartref

3.1 Diffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin yn y cartref yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad rheolaethol, gorfodol neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng rhai 16 oed ac yn hŷn sy'n bartneriaid personol, neu sydd wedi bod, neu rhwng aelodau o'r teulu ni waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig, i'r mathau canlynol o gam-drin:

- Seicolegol
- Corfforol
- Rhywiol

- Ariannol
- Emosiynol

3.2 Defnyddir ymddygiad rheolaethol i israddio unigolyn a/neu i'w wneud yn ddibynnol drwy ei ynysu rhag ffynonellau o gefnogaeth, ecsbloetio ei adnoddau a'i alluoedd er budd personol, ei amddifadu o'r dulliau y mae eu hangen i fod yn annibynnol, i wrthsefyll ac i ddianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

3.3 Mae ymddygiad gorfodol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithred a elwir yn drais 'er anrhydedd', llurgunio organau rhywiol merched a phriodasau dan orfod. (www.gov.uk/domestic-violence-and-abuse)

3.4 Er bod y diffiniad yn cydnabod oedolion fel rhai sy'n 16 oed ac yn hŷn, sydd mewn perthynas â phartner personol, mae cam-drin yn y cartref yn gorgyffwrdd â cham-drin plant yn aml lle gall plant fod yn dyst i gam-drin a/neu'n ddioddefwyr.

4.0 Nodau'r Polisi

4.1 Nodau ac Amcanion

- sicrhau bod unrhyw unigolyn neu unigolion sy'n dioddef cam-drin yn y cartref yn gallu cysylltu â'r cyngor yn gyfrinachol gan wybod y bydd staff yn gefnogol a llawn cydymdeimlad.
- meithrin perthnasoedd gwaith agos â darparwyr tai eraill ac asiantaethau cefnogi allanol yn ogystal ag annog a chynnal cydweithio lle y bo'n briodol.
- sicrhau bod ein hymateb i gam-drin yn y cartref yn diwallu anghenion pawb, ni waeth beth yw eu hoedran, rhyw, hil, dosbarth, diwylliant rhywioldeb neu anabledd.
- blaenoriaethu pob adroddiad o gam-drin yn y cartref a'i drin fel mater difrifol.
- lle y bo angen, cyfeirio preswylwyr i asiantaethau priodol sy'n gallu eu helpu drwy ddarparu cyngor a chefnogaeth arbenigol.
- cynnal polisiâu a gweithdrefnau clir a chryno, gan amlinellu'r cymorth y gall y Gwasanaeth Tai ei gynnig i breswylwyr yr effeithir arnynt gan gam-drin yn y cartref.

5.0 Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

5.1 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod swyddogion yn ymdrin â'r bobl hynny sy'n dioddef cam-drin yn y cartref mewn modd sensitif, llawn cydymdeimlad a difeirniadol. Un o nodau allweddol y polisi hwn fydd galluogi'r dioddefwr i ddod o hyd i ateb sy'n addas iddo ef a'i amgylchiadau unigol. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys:

- y dewis i gael ei gyfweld gan rywun o'r un rhyw

- cynnal y cyfweiliad mewn lleoliad o'i ddewis (yn amodol ar fodloni unrhyw bryderon o ran diogelwch staff)
- lle y bo'n bosib, peidio â chynnal y cyfweiliad o flaen ei blant
- gyda rhybudd, darparu gwasanaeth cyfieithu
- gall ffrind neu eiriolwr fod yn bresennol yn y cyfweiliad os yw'r unigolyn yn dymuno.

6.0 Plant a Cham-drin yn y Cartref

- 6.1 Dylid bob amser trin cam-drin yn y cartref fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar blant. Pan fyddant yn gweithio gyda phobl sy'n dioddef cam-drin yn y cartref, dylai swyddogion bob amser ystyried lles a diogelwch y plentyn, naill ai gan y tramgwyddwr neu unrhyw berson arall.
- 6.2 Os oes unrhyw bryderon amddiffyn plant mewn achos o gam-drin yn y cartref, mae dyletswydd ar staff i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r asiantaethau priodol.

7.0 Iechyd a Diogelwch Staff

- 7.1 Mae'r cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros sicrhau iechyd a diogelwch ei weithwyr a bydd yn ymdrechu i fodloni ei rwymedigaethau o dan ddeddfau perthnasol.
- 7.2 Mae'r cyngor yn derbyn bod perygl posib o drais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff pan fyddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau, a gall y perygl hwn fod yn ddifrifol mewn rhai amgylchiadau. Er mwyn lleihau'r perygl hwn, disgwylir i staff ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch a gweithio ar eich pen eich hun, yn enwedig pan fyddant yn gweithio y tu allan i'r swyddfa.

8.0 Polisi Dyrannu 2009

- 8.1 Mae Polisi Dyrannu 2009 yn nodi'r canlynol:

2.22 Mae'r cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y gall yr holl gwsmeriaid gael mynediad i wasanaethau'n hawdd ac ar delerau cyfartal. Yn aml, mae cam-drin yn y cartref yn cael effaith ar sefyllfa dai y rhai yr effeithir arnynt ganddo, a bydd y cyngor yn sicrhau bod yr holl staff yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin at roi cyngor, arweiniad a chymorth i gwsmeriaid sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.

2.23 Mae diogelwch a chyfrinachedd yn hollbwysig. Bydd y cyngor ond yn cysylltu ag asiantaethau eraill neu'n datgelu gwybodaeth i drydydd parti gyda chaniatâd y person hwnnw, oni bai ei fod yn ofynnol iddynt wneud hynny yn ôl y gyfraith neu oni bai fod yr wybodaeth honno'n angenrheidiol er mwyn diogelu pobl sydd mewn perygl.

9.0 Ein Hymateb

9.1 Darparu Llety a Digartrefedd

Fel rhan o'r weithdrefn ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr cam-drin yn y cartref, mae'n rhaid i staff asesu'r perygl i'r dioddefwr a'r opsiynau sydd ar gael i'r unigolyn ar y pryd. Gall hyn gynnwys rhoi cymorth i'r dioddefwr allu aros yn ei gartref presennol drwy ddefnyddio myfyrdod, rhwymedïau cyfreithiol neu'r Cynllun DASS (Diogelwch a Diogeledd Cam-drin yn y Cartref). Mae'n bosib y bydd achlysuron pan na all y dioddefwr aros yn yr eiddo a bydd rhaid trefnu llety arall, megis tŷ diogel neu lety brys dros dro, er mwyn galluogi'r staff tai i gynnig cyngor a chymorth ac ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Gallai hyn gynnwys darparu cefnogaeth i alluogi'r dioddefwr i ddychwelyd ar ôl i'r mesurau diogelwch priodol gael eu rhoi ar waith, neu gynorthwyo'r dioddefwr i wneud cais digartrefedd os nad yw'n gallu dychwelyd i'w gartref neu aros yno ar ôl ystyried opsiynau eraill i atal digartrefedd.

Cynhelir Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) bob pythefnos i ddarparu ymateb amlasiantaeth i achosion a ystyrir yn rhai risg uchel. Bydd y gwasanaeth tai yn aelod allweddol o MARAC a bydd yn sicrhau bod cynrychiolydd yn bresennol ym mhob cynhadledd a gynhelir. Bydd staff priodol sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau risg yn nodi achosion y dylid eu cyfeirio at MARAC. Yn ogystal â threfnu cynadleddau i drafod achosion unigol, mae MARAC hefyd yn darparu fforwm i asiantaethau gwrdd a rhannu sgiliau a gwybodaeth ac i edrych ar ffyrdd y gellir gwella gwasanaethau.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddiodefwr cam-drin yn y cartref yn cael ei gyfeirio i'r gefnogaeth briodol gyda'i ganiatâd, a byddwn yn gweithio'n agos â'r Uned Cefnogi Tenantiaid i sicrhau y ceir canlyniad priodol ac ymatebol.

9.2 Y Cytundeb Tenantiaeth

Sylwer y gall cam-drin yn y cartref fod yn sail dros feddiannu o dan Is-adran 2a atodlen Deddf Tai 1985 fel y'i diwygiwyd, a bod deddfwriaeth yn y dyfodol yn debygol o greu hawl penodol i feddiannu yn erbyn tramgwyddwr.

Pan fo tenantiaid neu aelodau o'u haelwydydd yn dioddef cam-drin yn y cartref, bydd y Swyddog Cymdogaeth yn rhoi cyngor a chymorth. Ceir crynodeb bras o'r ymagwedd i'w mabwysiadu dan y polisi hwn o dan y penawdau canlynol:

Rhwymedïau

Pan fo'r dioddefwr yn denant neu'n bartner i'r tenant, efallai y bydd angen cyngor arno am rwymedïau cyfreithiol neu'r cynllun DASS. Darperir hyn gan ei Swyddog Cymdogaeth a allai drafod dewisiadau megis mesurau diogelwch neu symud, drwy ddefnyddio "trosglwyddiad dan reolaeth" neu lety arall addas, a'r broses o roi rhybudd. Ystyrir y Cynllun DASS neu'r rhaglen addasu ymddygiad ar gyfer y tramgwyddwr yn hytrach na thybio'n syth mai symud cartref fyddai'r cam gweithredu gorau.

Ailgartrefu

Mae'r polisi hwn yn cynnwys darpariaeth, yn amodol ar asesiad, ar gyfer opsiwn ychwanegol i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref a gallai'r flaenoriaeth gynyddol ganiatáu trosglwyddiad brys. Mae hefyd darpariaeth ar gyfer cynnal trosglwyddiad dan reolaeth a bydd y rheolwyr tai yn ystyried trosglwyddiad ar ôl ystyried manylion amgylchiadau unigolion. Bydd y tîm Opsiynau Tai yn trafod y broses ddiogartrefedd ac yn rhoi cyngor a chymorth am dai lle y bo'n briodol, ond gwneir pob ymdrech i atal digartrefedd a dod o hyd i ddewisiadau diogel eraill cyn ystyried digartrefedd.

Tenantiaethau ar y Cyd

Pan fo tenantiaid ar y cyd, gall y naill barti neu'r llall roi rhybudd a therfynu'r denantiaeth. Mewn sefyllfaoedd lle dymunir terfynu'r denantiaeth oherwydd cam-drin yn y cartref, cynghorir y ddau barti i gael cyngor cyfreithiol a chysylltu â'r tîm Opsiynau Tai am gyngor a chymorth.

Mae'r Tramgwyddwr yn Denant Unigol

Pan fo'r tramgwyddwr yn denant unigol, gall y cyngor ddefnyddio sail 2a Atodlen 2 Deddf Tai 1985 fel y'i diwygiwyd i feddiannu'r eiddo, ond bydd rhaid adolygu'r dystiolaeth a'r canlyniadau.

Ôl-ddyledion neu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ni fydd ôl-ddyledion nac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn diystyru diogelwch y dioddefwr ac nid effeithir ar unrhyw gymorth brys a gynigir.

9.3 DASS - Atgyweiriadau a Gwelliannau Diogelwch i Denantiaid y Cyngor

Mae'r cyngor yn ymdrechu i alluogi tenantiaid sy'n dioddef cam-drin yn y cartref aros yn eu cartrefi eu hunain pan fo'n ddiogel iddynt wneud hynny. Hwylusir hyn drwy'r Cynllun Diogelwch a Diogeledd Cam-drin yn y Cartref (DASS). Gwneir cyfeiriadau i'r heddlu, gyda chaniatâd y tenant, a fydd yn cynnal asesiad risg ac yn trefnu i swyddog atal troseddau archwilio'r eiddo i argymhell addasiadau diogelwch cartref. Fel landlord, bydd y cyngor yn gosod cloeon newydd neu'n ymgymryd â threfniadau diogelwch eraill yn ddi-dâl, ond fel arfer bydd hyn yn amodol ar derfyn cost.

Os caiff rhannau o'r eiddo eu difrodi oherwydd cam-drin yn y cartref, fel arfer ni chodir tâl ar y dioddefwr i'w atgyweirio. Fodd bynnag, mae'n bosib yr ymdrechir i adennill y costau gan y tramgwyddwr.

9.4 Opsiynau Cyfreithiol

Mae gweithdrefnau cyfreithiol ar gael i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref drwy'r llysoedd fel arfer, beth bynnag yw'r ddaliadaeth dan sylw. Nod y rhain yw diogelu'r rhai sy'n dioddef cam-drin yn y cartref a'u galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys gorchmynion preswyl a gorchmynion rhag molestu. Cynghorir dioddefwyr i geisio cyngor cyfreithiol bob amser pan fyddant yn ystyried y dewisiadau hyn.

10.0 Deddfwriaeth

- Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Cyfraith Teulu 1996
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Deddf Tai 1996

10.1 Gall troseddau sydd yr un mor berthnasol mewn cyd-destun annomestig - gan gynnwys ymosodiad cyffredin, curo, ymosodiad sy'n peri gwir niwed corfforol, clwyfo â'r bwriad o beri niwed corfforol difrifol, ymosodiad rhywiol a threisio - fod yn berthnasol i dioddefwyr cam-drin yn y cartref. Yn ôl Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, roedd 96,000 o'r troseddau ymosod â niwed yr adroddwyd arnynt yn 2013-14 yn gysylltiedig â cham-drin yn y cartref.

11.0 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

11.1 Mae'r cyngor yn cydnabod y gall cam-drin yn y cartref ddigwydd ym mhob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'r oed, rhyw, hil, statws priodasol, rhywioldeb, crefydd, anabledd, cyfoeth, lleoliad daearyddol, cyflawniad academaidd neu allu addysgol. Gall ddigwydd ar unrhyw adeg mewn perthynas, gall ddwysáu o ran amlder a difrifoldeb a gall barhau ar ôl i'r berthynas ddod i ben. Mae'r dystiolaeth yn dangos, fodd bynnag, fod y mwyafrif llethol o achosion gan ddynion yn erbyn menywod sydd mewn perthynas bersonol, neu sydd wedi bod. Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i ddynion sydd wedi dioddef cam-drin yn y cartref ac i bobl mewn perthnasoedd o'r un rhyw, yn ogystal ag aelodau eraill o'r aelwyd nad ydynt mewn perthynas bersonol â phartner.

11.2 Mae Dinas a Sir Abertawe yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn gweithredu o fewn cwrmpas Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y cyngor sy'n pennu ymrwymiad y cyngor i gydnabod amrywiaeth a darparu gwasanaethau sy'n ystyried y materion hyn.

11.3 Gellir cael copïau o'r wybodaeth mewn fformatau eraill ar gais.

12.0 Cyfrinachedd

12.1 Mae cynnal cyfrinachedd llwyr yn hollbwysig pan fyddwn yn ymdrin ag adroddiadau o gam-drin yn y cartref. Rydym yn deall bod rhaid i breswylwyr deimlo'n sicr na fydd tramgwyddwyr yn canfod ble y maent os ydynt yn dewis gadael y berthynas na'u bod yn cael cyngor a chymorth os ydynt yn byw gyda cham-driniwr o hyd. At y diben hwn, ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth am unrhyw un â thrydydd parti heb eu caniatâd ysgrifenedig ac ni fyddwn yn cysylltu â'r dioddefwr ar ôl iddo gysylltu â ni oni bai ei fod yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

- 12.2 Ni chysylltir â'r tramgwyddwr oni bai fod y dioddefwr wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Os cytunir ar gyswllt, mae'n rhaid hysbysu'r dioddefwr o'n bwriad i gysylltu cyn gwneud hynny lle bynnag y bo'n bosib. Mae'n rhaid i'r dioddefwr gytuno ar ddyddiad/amser unrhyw gyswllt, gan gynnwys pryd caiff llythyrau eu hanfon neu bryd ceir galwadau ffôn.
- 12.3 O dan Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998, ymdrinnir â phob darn o wybodaeth gyfundrefnol bersonol a sensitif yn gyfrinachol, ni waeth sut y derbynnir. Mae hyn yn cynnwys:
- unrhyw beth o natur bersonol nad yw'n fater cofnod cyhoeddus am breswlydd, cleient, ymgeisydd, aelod o staff neu aelod pwyllgor
 - gwybodaeth gyfundrefnol sensitif
- 12.4 Bydd swyddogion yn sicrhau eu bod ond yn cynnwys asiantaethau eraill ac yn rhannu gwybodaeth â chaniatâd y preswlydd dan sylw, oni bai fod:
- yr wybodaeth yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn plant
 - rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, ni allwn gadw gwybodaeth yn ôl os rydym yn cael ein holi gan yr heddlu yn ystod ymchwiliad troseddol

13.0 Monitro ac Adolygu

- 13.1 Byddwn yn casglu data ystadegol i'n galluogi i deilwra'r gwasanaeth mwyaf effeithiol i dargedu cam-drin yn y cartref a mynd i'r afael ag ef.
- 13.2 Caiff y Polisi Cam-drin yn y Cartref hwn ei adolygu o dro i dro, yn enwedig mewn ymateb i newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaethau neu amgylchiadau lleol eraill.